# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS MEDI 2020:**
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis am 7 y.h. nos Fercher 9 Medi, 2020**.**
Estynwyd croeso i'r aelodau a oedd yn cyfarfod gyda'I gilydd am y tro cyntaf ers misoedd lawer. Roedd pob cyfarfod ers mis Ebrill wedi bod ar Zoom.
Dywedodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn cael ei gynnal ar ôl ymgynghori gyda'r aelodau ac yn unol a rheolau'r Llywodraeth a oedd mewn grym ar gyfer Covid-19. Ychwanegodd fod y Clerc wedi ystyried y risg o'I gynnal yn unol ac argymhellion y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE). Roedd hyn yn golygu cadw dwy fedr arwahan, golchi dwylo wrth ddod I mewn a gadael yr adeilad, ynghyd a holi a oedd pawb yn teimlo'n iach. Y Cadeirydd a'r Clerc yn unig oedd yn eistedd wrth fyrddau ac nid oedd y toiledau ar gael. Cadwyd cofnod o bresenoldeb rhag ofn y bydd problem iechyd gan unrhyw un yn ddiweddarach.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
***Ymddiheuriadau:*** Claudia O'Donnell, Llinos Haf Pritchard. Y ddwy yn aelodau newydd a gyfetholwyd ond yn ymddiheuro oherwydd diogelwch iechyd a pryder am eu plant. Dywedodd y Clerc ei fod yn gobeithio y byddant yn ymuno a ni'n fuan, cyn belled a bod amgylchiadau'n caniatau.

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau 15 Gorffennaf, 2020 fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.
Cynnig ac eilio: HLJ / OG.

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Defaid Crwydrol:***
Hyd yma chafwyd dim ymateb oddi wrth yr Heddlu.
***2. Cynllun Cyfaill:***
Y ffôn yn dal ar gael, ond neb yn galw am gymorth..
***3. Sedd wag ward Padarn:***
Hysbysebwyd eto y sedd wag yn Ward Padarn a chafwyd ymateb gan Dr Paula Roberts a Kimberley S Jones, yn ddwy o Lanberis ac wedi byw yma erioed. Cynhaliwyd pleidlais gudd, ac o leiafrif bychan daeth Kim Jones i'r brig. Cytunwyd yn unfrydol i'w chyfethol i'r Cyngor ac i ddiolch i Paula Roberts am ei diddordeb gan obeithio y bydd yn ystyried aelodaeth o'r Cyngor yn y dyfodol.
***4. Codi gwaharddiadau teithio ac agor y mynyddoedd:***
Gyda llacio'r rheolau ar deithio daeth yr ymwelwyr yn ôl a bu'n fis Awst hynod brysur yn yr ardal. Cafwyd cwynion am barcio anghyfreithlon a sbwriel, ac am bobl yn gwersylla a chysgu mewn catrefi symudol mewn mannau anghymwys. Gresynwyd na waned dim llawer i atal hynny gan Gyngor Gwynedd (CG) ar lannau Llyn Padarn ger Y Glyn. Soniwyd hefyd am barcio a chysgu dros nos ym maes parcio'r Castell Dolbadarn a gynwyd i'r Clerc gysylltu a Cadw, goruchwylwyr y Castell i ofyn iddynt atal hynny.
Mewn mannau eraill, yn enwedig ar y Stryd Fawr roedd llawer wedi anwybyddu'r rheol 2 fedr. Soniwyd fel yr oedd Cyngor Ceredigion er engraifft wedi creu sustem trafnidiaeth un-ffordd mewn nifer o drefi ac fod hynny wedi ei gnweud yn haws i gerddwyr. Holwyd oedd hi ddim yn amser trafod hynny yn Llanberis a chreu sustem un-ffordd ar hyd y Stryd Fawr?
Croesawyd y ffaith fod CG, ar ôl ymgynghori a'r Cyngor hwn, wedi gwrthod ystyried ceisiadau am gynnal rasus a digwyddiadau ar Gae'r Ddôl oedd wedi eu dileu neu eu gohirio tan y flwyddyn nesaf. Yn ystod y dyddiau diwethaf daeth y newydd fod un ras fawr i'w chynnal yng Nghapel Curig ar ôl I'r trefnwyr ddeall nad oedd lleoliad ar gael yn Llanberis. Croesawyd hynny gan yr aelodau oedd yn teimlo nad oedd yn addas cynnal unrhyw ddigwyddiadau torfol eleni.
Yn yr un modd croesawyd y ffaith nad oedd CG wedi caniatau cau Stryd y Farchnad gresynwyd fod un caffi wedi gor ymateb trwy roi byrddau ar y stryd ac achosi trafferthion I gerddwyr.

Nid Llanberis a Nantperis oedd yr unig bentrefi I gael eu boddi gan drafnidiaeth a moduron ond roedd croeso I'r ffaith fod CG ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) wedi cynyddu y nifer o fysiau oed yn cario teithwyr i Ben y Pas a dod a rheolau llym ar barcio i rym. Da oedd deall fod yr awdurdodau yn symud ceir oedd wedi eu parcio'n anghyfreithlon yma ac mewn mannau eraill megis Ogwen.
Yn Nantperis roedd CG wedi cadw cilfan Adwy Ffordd Haearn ar gau, ac roedd hynny wedi atal cysgu dros nos.
Mewn perthynas a'r Stryd Fawr adroddwyd i BH drafod mater taclusrwydd gyda Ysgrifennydd y Grwp Datblygu, ond I'r Cadeirydd wedyn fod yn ymosodol ei agwedd tuag ati.

***5. Cae UEFA:***

Penderfynnodd y Clerc nad oedd y cae yn beryglus ac nad oedd angen ei gau, ond dywedodd y byddai ef a'r Cadeirydd yn ystyried sut i wella ei gyflwr ac yn adrodd yn ôl.

***6. Torri Gwair:***

Ystyriwyd llythyr Cyngor Llandwrog a ddaeth i law dro'n ôl ynglyn a safon ac amlder gwaith torri gwair CG yn yr ardal. Mae amgylchiadau Llandwrog yn wahanol i'r Cyngor hwn gan fod CG gyda cytundeb i wneud torriadau ychwanegol yno ac mewn ardaloedd eraill. Roedd y cynghorau hynny yn teimlo na chawsant werth eu pres eleni. Wrth gwrs oherwydd Covid-19 chafwyd dim cystal gwasanaeth yma chwaith, ond doedd yr aelodau ddim yn barod i alw am ddatganoli gwaith torri glaswellt i'r Cyngor o gofio fod hyn yn rhywbeth a fydd, mae'n debyg, yn cael drafod rhwng CG a'r cynghorau cyn y tymor nesaf.
Mynegwyd diolch i'r cyfeillion sy'n torri'r gwair wrth fynedfa orllewinol y pentref o'r ffordd osgoi.

**5 MATERION ERAILL:**

***1. Cae Dôl y Goeden:***

Cyllid Y Ganolfan (Y Pwyllgor) oedd wedi trefnu a thalu am dorri gwair ar gae peldroed Dôl y Goeden eleni. Yn ôl HS, Cadeirydd Pwyllgor Y Ganolfan doedd CG ddim wedi torri yno o gwbl.

***2. Parcio Tacsis:***

Cafwyd cwynion fod nifer o gerbydau tacsi yn parcio ar gyfnewidfa bysiau Dôl y Goeden, ar linellau melyn dwbl. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo CG gan fod hyn yn gystadleuaeth anheg a'r cwmniau bysiau sy'n cael eu noddi gan arian cyhoeddus. Yn groes i'r ffordd o'r Feddygfa, ger Dôlafon, mae lle i barcio tacsi.

***3. A4086:***

Cyfeiriwyd at y ffordd a'r gwaith a wnaed o drwsio a rhoi haen newydd ar ei hwyneb, o gylchfan ger gwesty Fictori i bentref Nantperis. Roedd y Clerc wedi holi pan na chwblhawyd y gwaith i Beudy Mawrth wrth waelod y Bwlch. Cafwyd ateb o'r Adran Priffyrdd CG yn dweud nad oedd bwriad i fynd mor bell, ac mai camgymeriad yn yr hysbyseb am y gwaith oedd yn gyfrifol am y camarwain. Nodwyd nad oedd gwaith trwsio wedi ei wneud ym mhen ucha'r Nant ac y byddai angen hynny o leia cyn ailwynebu'r ffordd a soniwyd am waith i atal llifogydd gyferbyn a Thanbryn.
Mae hyn yn siomedig gan nad oes bwriad felly i wneud gwaith pellach ger adwy Gardda Bach, llecyn nodedig am lifogydd difrifol ers blynyddoedd er i hanner addewid gael ei roi yn ddiweddar gan un o'r peirianwyr y byddai'r Cyngor yn ystyried o ddifri sut i liniaru'r llifogydd sydd wedi cau'r ffordd sawl tro.
Yn uwch i fyny mae angen edrych ar y nant o dan y ffordd sy'n dod o Danbryn yn ogystal a Terfyn/Talgae ac ardal Coed Gwydr lle bu llifogydd na welwyd eu tebyg rai wythnosau'n ôl. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu eto a CG i fynegi siom am Gardda Bach ac i ofyn am brysuro'r gwaith yn y mannau eraill yn ogystal a thrwsio wyneb y ffordd.

***4. Llwybr Nant Ucha'***

Mae'r llwybr newydd yma unwaith eto mewn cyflwr drwg, tyllau yn y gwaith coed a'r tyfiant heb ei docio. Anfonodd y Clerc lythyr at APCE yn cwyno am hynny ac ymhen ysbaid cafodd ateb yn dweud nad cyfrifoldeb Parc Eryri ydi'r llwybr ond CG. Ymhen rhai dyddiau daeth GJ Swyddog Llwybrau'r Cyngor heibio, gwnaeth restr o'r diffygion, diogelu ambell le ar y llwybr pren a threfnu i docro'r tyfiant. Addawodd y bydd yn ystyried dyfodol y llwybr pren ar ôl prysurdeb yr haf gan fod ei gyflwr yn dirywio yn gyflym. Bydd rhaid sicrhau fod hynny yn digwydd.

***5. Goleuadau Nadolig:***

Roedd y Clerc wedi derbyn pris oddi wrth CG am osod blychau ar gyfer goleuadau Nadolig ar bolion lampau stryd. Roedd y pris yn £250+TAW y polyn am y bocs a'r gosod. Wedi trafodaeth penderfynwyd i beidio archebu bocsus ond i osod goleuadau i harddu coed o Faes Padarn draw tua Pentre Castell. Byddai rhain yn oleuadau tebyg i un brynwyd y llynedd yn rhedeg ar fatri. bydd angen penderfynnu sawl un i'w brynu, ac i'w archebu mewn da bryd.

**6 GOHEBIAETH:**

***1. Torri gwrych:***

Cafwyd cwyn fod gwrych wedi tyfu a chyfyngu ar allu cerddwyr i ddefnyddio'r palmant ym mhen grollewinol y pentref. Doedd yr achwynwr, o'r tu allan i'r Plwy, ddim am wneud unrhyw sylw pellach ar ôl i'r Clerc gysylltu ag ef, ond gresyn ei fod wedi anfon copi o'i ebost i nifer o newyddiadurwyr yr un pryd, cyn cysylltu a ni. Cafwyd ar ddeall fod y gwrych wedi ei dwtio erbyn hyn.

***2. Mynwent Eglwys Nantperis [Project Mynwentydd Byw Eryri]:***
Mae cynllun ar y gweill rhwng Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru ac APCE i greu hafan bywyd gwyllt mewn mynwentydd, 4 yn y flwyddyn gynta, yn Eryri. Y bwriad ydi creu cynllun rheoli a fydd yn creu cynefinoedd newydd ar gyfer planhigion a rhywogaethau. Wedi derbyn y manylion roedd y Clerc wedi cysylltu yn ôl i ofyn a fwy o fanylion gan nodi nad cyfrifoldeb y Cyngor hwn yw'r Fynwent, ond ein bod yn torri gwair ynddi ddwy waith y flwyddyn. Yn amlwg byddai'r trefnwyr yn chwilio am wirfoddolwyr a byddai angen cysylltu a'r Cyngor Eglwysig lleol. Awgrymwyd fod y gwaith papur yn cael ei anfon ymlaen i glerc y Cyngor hwnnw (HLJ). Addawodd y Clerc wneud hynny

**7 CYNLLUNIO:**

- ***C20/0605/15/LL -*** *Newidiadau i'r toeau* **- Becws Penybryn, Stryd Fawr, Llanberis** - Dim sylw.
- ***C20/0644/15/LL -*** *Cais ar gyfer codi gweithdy a storfa gychod* **- Pont Penllyn, Brynrefail** -
  Holi oedd angen adeilad deulawr, oni fyddai yn ymwthiol yn y lleoliad dan sylw?
- ***C20/0659/15/DT -*** *Cais ar gyfer dymchwel estyniad ochr unllawr presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le* **-**
  **8 Rallt Goch Ceunant, Llanberis** - Dim sylw.

**8 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Awst, 2020**
**Cyfrif Cyfredol**: £28,338.45 **Cyfrif Cadw**: £5,365.65
**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol: £730.73**
**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/05/2020 a 28/08/2020: £15,218.13**
Dadansoddwyd y gwariant a'r derbyniadau i ddiwedd Awst. Cynnig ac eilio: TT / IH

**9 LLWYBRAU**
Nodwyd fod trafferthion ar nifer o lwybrau, yn arbennig ger Mur Mawr. Addawodd GE fynd i gael golwg ac adrodd yn ôl i'r Cyngor nesaf.

**10 Y FYNWENT:**
SOniwyd fel yr oedd nifer yr addurniadau wedi cynyddu ar nifer o feddau yn ddiweddar. Mae'r rheolau'n ddigon clir a gofynnwyd i'r Clerc sicrhau fod copi da ar gael ar yr Hysbysfwrdd y Fynwent, ynghyd a copi ar Wefan y Cyngor.

**10 CYFARFOD NESAF:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf yn Y Ganolfan os bydd amgylchiadau yn caniatau. 7 y.h. Nos Fercher 14 Hydref, 2020.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**

Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos Dyddiad 14 Hydref 2020.

*3/3*